Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru): amlinelliad o gynlluniau ar gyfer newidiadau deddfwriaethol i'w gweithredu ar draws Cymru

© Hawlfraint y Goron Medi 2015
WG26534

# Amlinelliad o gynlluniau ar gyfer newidiadau deddfwriaethol i'w gweithredu ar draws Cymru

Mae Bil drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (*"Bil drafft"*) yn disgrifio cynigion ar gyfer system ddeddfwriaethol newydd a fydd yn cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 mlwydd oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Byddai'r system newydd yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch anghenion addysgol arbennig (AAA) a'r asesiadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu sydd mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar y Bil drafft ar 6 Gorffennaf 2015 a bydd yn dod i ben ar 18 Rhagfyr 2015. Gallwch weld yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru:
http://gov.wales/consultations/education/draft-aln-and-education-tribunal-wales-bill/?lang=cy

Er mwyn sicrhau dealltwriaeth effeithiol o'r modd y gallai'r ddeddfwriaeth arfaethedig gael ei gweithredu mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynllun gweithredu dangosol sy'n nodi'r hyn y mae gofyn ei wneud er mwyn cyflawni'r diwygiadau deddfwriaethol a ddisgrifir yn y Bil drafft.

Mae'r cynllun gweithredu'n seiliedig ar nifer o egwyddorion, a chredwn y byddent yn sicrhau trosglwyddiad didrafferth o'r system bresennol i'r trefniadau statudol newydd a gynigir. Dyma'r egwyddorion allweddol:

- Sicrhau digon o amser i ddysgwyr, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol perthnasol ymgyfarwyddo â'r newidiadau sy'n cael eu cynnig a pharatoi ar gyfer yr effaith y bydd y newidiadau hyn yn ei chael;

- Rhaglen o hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol a fydd yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU);

- Dylai CDU gael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod penodol o amser er mwyn caniatáu digon o amser i awdurdodau lleol a lleoliadau addysg adolygu'r cynlluniau a'r polisïau presennol ar gyfer cefnogi dysgwyr ag AAA neu anawsterau a/neu anableddau dysgu.

Rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ynghylch egwyddorion y cynlluniau ar gyfer gweithredu. Trwy wneud hyn rydym wedi gallu pennu'r ffrydiau gwaith allweddol a'r cysylltiadau â pholisïau ehangach ac ategol gan gynnwys ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion a datblygu'r gweithlu.

Ar sail yr egwyddorion uchod byddai angen cyfnod trosglwyddo addas a fydd yn sicrhau'r canlynol:

- Rhaglen o adeiladu ar y cyd gyda rhanddeiliaid a fydd yn cynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, awdurdodau lleol, ymarferwyr addysg – yn amrywio o'r blynyddoedd cynnar i addysg bellach, Cydlynwyr AAA,

darparwyr arbenigol a'r trydydd sector (mae hyn eisoes ar waith ond bydd y momentwm yn parhau cyn ac ar ôl i'r Bil ddilyn camau'r broses ddeddfwriaethol);

- Ymgynghoriad ffurfiol ynghylch rheoliadau a chanllawiau allweddol;

- Darparu hyfforddiant ynghylch y gofynion statudol a fydd yn cael eu gosod ar gyrff perthnasol ac ynghylch darparu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU);

- Cyflwyno CDU yn raddol, gan baratoi at y cyfnod pan fyddant yn ofyniad statudol erbyn diwedd y cyfnod trosglwyddo.

Byddem yn disgwyl i'r holl drefniadau newydd fod yn eu lle o fewn 3 blwyddyn academaidd i dderbyn Cydsyniad Brenhinol ar gyfer Bil. Bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn dymuno adolygu pa mor ymarferol yw'r cynllun gweithredu a pha mor effeithiol ydyw ar adegau allweddol gydol y broses ddeddfwriaethol. Bydd hefyd yn ystyried am faint y bydd mewn grym ar ôl i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Bydd gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau er mwyn sicrhau bod effaith y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn dod i rym mewn modd mor ddidrafferth â phosibl.

## Cynllun Gweithredu Amlinellol

